



Teitl y Swydd : Cogydd
Adran: Café Bar Galeri
Yn atebol i'r: Cyfarwyddwr Gweithrediadau & Gofal Cwsmer a'r Prif Gogydd
Cyflog: I'w drafod
Oriau: 40 awr yr wythnos
I ddechrau: Cyn gynted a phosib
Dyddiad cau: 07.02.20 (hanner dydd)

Pwrpas y Swydd:

- I gynorthwyo'r Prif Gogydd gyda unrhyw baratodau / dyletswyddau fel bo'r angen a'r gofyn
- I ddirprwyo yn absenoldeb y Prif Gogydd
- I gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gofal Cwsmer fel bo'r angen
- Goruchwyllo a chydlynnu adran o'r Gegin i ddarparu a choginio prydau'r bwyty

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cyffredinol

- Paratoi, coginio a chyflwyno bwyd yn unol â'r archebion a dderbynir gan y staff gweini yn ogystal ac ar gyfer digwyddiadau neilltuol- hyn o safon uchel yn sydyn ac effeithlon
- Bod yn ymwybodol o gynhwysion i gyfarfod gofynnion dietegol
- Gallu gweithio oddi ar eich menter eich hun heb oruchwyliaeth
- Sicrhau bod cyflenwad cyson o nwyddau/ chynhwysion ar gael ar gyfer y shift nesaf
- I ddarganfod beth sydd angen ei wneud ar gyfnodion distaw, heb anogaeth
- Derbyn a llofnodi ar gyfer nwyddau a sicrhau ansawdd
- Cynnal a chadw gwaith papur y gegin yn ddyddiol, yn bennodol agweddau o ddiogelwch bwyd
- Cyfrannu at ddatblygiad y gegin
- Cyflawni'r dyletswyddau mewn dull effeithiol, cwrtais, proffesiynol a chyson
- Rhoi gwasanaeth cyson a sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal mewn cydweithrediad â'r Prif Gogydd
- I dderbyn galwadau ffon a delio âc ymholiadau pan yn ofynnol
- I fod yn ymwybodol o ofynnion Iechyd a Diogelwch cegin weithredol
- Sicrhau ymwybyddiaeth ar gychwyn pob shift o'r prydau arbennig / beth sydd ymlaen yn yr adeilad
- Hysbysu staff blaen ty o'r prydau arbennig sydd ar gael ar gychwyn neu yn ystod shift
- Hysbysu staff blaen ty am unrhyw gyfnodau disgwyl yn ystod gwasanaeth a cadw cyfathrebiad cyson efo nhw
- Gwyliadwriaeth cyffedinol a rheolaidd o'r gegin
- Sicrhau bod paratodau / tasgau wedi ei cyflawni cyn darford shift a bod yr adran yn barod am fusnes ar y diwrnod canlynol
- I gynorthwyo gyda cyflenwi dros dro yn ystod digwyddiadau / gwyliau/ salwch
- I nodi ac adrodd unrhyw ddiffygion yn y gegin
- Cadw at bolisiau a dull gweithredu'r Cwmni
- Cyflwyno ei hun am ddyletswydd mewn cyflwr glan a hylan

Glanhau:

- Rhaid i bob gweithred glanhau ac unrhyw weithred cysylltiedig gael ei weithredu mewn dull sydd yn sicrhau diogelwch staff ac eraill
- Sicrhau bod glendid a safon y gegin i gyd yn cael ei gynnal pob amser i gyfarfod anghenion Iechyd a Diogelwch/ Safonau Glendid Bwyd
- Gweithredu unrhyw waith glanhau sy'n dod i'r amlwg a glanhau wrth fynd ymlaen
- Sicrhau bod y weithfan bersonol yn daclus a glan pob amser

Cynhaliaeth:

- Cynnal offer a cyflenwadau glanhau
- Adrodd unrhyw ddiffygion, difrod neu fandaliaeth
- Gofalu nad oes gwastraff boed o'n ynni, bwyd, stoc
- Cadw stordai , oergelloedd ayyb yn lan a thaclus

Arall:

I gynorthwyo'r Prif Gogydd hefo unrhyw ddyletswyddau eraill o fewn rheswm

Bod yn hyblyg o ran oriau gwaith oherwydd natur y busnes

Manyldeb person / sgiliau:

Yn hanfodol:

- Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
- Prydloneb
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm / ar ben ei hun heb gyfarwyddyd cyson
- Bod yn dawel a hunanfeddiannol ar amseroedd prysur
- Bod yn drefnus a blaenoriaethu tasgau
- Cymhwyster Glendid Bwyd
- Yn berson sydd eisiau datblygu'n barhaus
- Sydd âg agwedd 'gall wneud' cadarnhaol
- Dangos egni uchel

[illegible]

We are looking for a creative and passionate Cook to join Galeri's kitchen team as we develop our catering offer.

The successful candidate will have an opportunity to voice their ideas, help develop our year-long trade and co-work in creating new menus for the business.

The ability to communicate effectively through the medium of Welsh is desirable for this post.



galericaernarfon.com

Twitter: @_Galeri_

Facebook: /GaleriCaernarfon